


# TROSOLWGW




ADEILADAU

**ECO**  **CHURCH**  
AN A ROCHA UK PROJECT



**ALLCHURCHES TRUST LIMITED**®  
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

[www.ecochurch.arocha.org.uk](http://www.ecochurch.arocha.org.uk)



## ADEILADAU

# Pam ydym ni'n cynnwys adran am adeiladau?


Mae'n annhebygol iawn bod unrhyw un yn y DU heb glywed am y newid yn yr hinsawdd. P'un a oes gennych ddi-ddordeb yn y data ai peidio, mae pob un ohonom wedi ei brofi'n bersonol ac wedi clywed ar y newyddion am dywydd eithafol drwy'r byd i gyd. 2010–19 oedd y degawd poethaf ers cychwyn y cofnodion, a chofnodwyd y lefelau uchaf erioed o garbon deuocsid yn 2019.

Gwyddom fod allyriadau carbon deuocsid yn cyfrannu at y newid hinsawdd ac, er bod rhywfaint ohono'n dod o achosion naturiol, mae llawer ohono'n dod o weithgareddau dynol. Rydym ni'n gwybod hefyd bod dylanwad allyriadau carbon a thywydd eithafol yn effeithio waethaf ar wledydd mwyaf tlawd y byd – p'un a yw hynny oherwydd llifogydd, sychder, gwres eithafol neu brinder bwyd.

Fel Cristnogion, rydym eisiau bod yn stiwardiaid ar y ddaear y mae Duw wedi ei rhoi i ni a meddwl am y tlawd: fel eglwysi, gallwn ni wneud hynny drwy ystyried newid ein hymddygiad ein hunain i helpu i ostwng allyriadau carbon. Bydd hyn yn cynnwys meddwl am ostwng ein defnydd o egni, trosglwyddo i ffynonellau egni adnewyddadwy, a gwrthbwysu unrhyw egni a ddefnyddiwn os nad yw'n bosibl i ni ostwng ein defnydd.

Mae'r cwestiynau'n cychwyn drwy ofyn i eglwysi ystyried mesur a gosod targedau i wella eu heffeithiolrwydd carbon. Mae nifer o ffyrdd y gallwn ni wneud arbedion yn rhad, neu ffyrdd sy'n arbed arian yn ogystal â charbon, fel trosglwyddo i gyflenwyr egni gwyrdd, newid i oleuadau LED, ynysu a diogelu yn erbyn drafftiau lle bo modd ac ystyried effeithiolrwydd y bwyler. Gwresogi a defnyddio pŵer (ar gyfer pethau fel golau) yw'r prif bethau sy'n allyru carbon yn y mwyafrif o eglwysi, felly rydym yn edrych yn drwyadl ar y meysydd hyn yng nghwestiynau terfynol y papur am gynhyrchu egni adnewyddadwy. Ni fydd pob eglwys yn gallu cynhyrchu eu trydan eu hunain, a bydd ein hadnoddau'n eich helpu i ddeall rhagor am yr opsiynau sydd ar gael.

Mae'r cwestiynau yng nghanol yr holiadur wedi eu bwriadu i'n helpu ni oll i feddwl am bethau fel



## ADEILADAU

# Pam ydym ni'n cynnwys adran am adeiladau?

y newidiadau bach mewn ymddygiad y gallwn ni eu gwneud sy'n cael effaith ar y cyd: pethau fel gostwng ein defnydd o'r prif gyflenwad dŵr, defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a chymryd y beic yn lle neidio i'r car.

Bydd pob eglwys yn dilyn ei llwybr ei hun i wella effeithiolrwydd carbon. Yn aml iawn byddan nhw'n gwneud hyn mewn camau wrth i'r addolwyr gymryd mwy o ddiddordeb ac wrth i'r adnoddau ddod ar gael. Sut bynnag yr ewch chi ati, mae llawer o bethau bach cyflym y gallwch eu gwneud i'ch cychwyn chi ar eich taith, A chofiwch gynnwys y gynulleidfa gyfan – p'un a yw hynny ar gyfer pethau syml fel cofio diffodd y goleuadau, codi arian i alluogi i'r eglwys fod yn fwy gwyrdd neu annog newid mewn ymddygiad gartref hefyd. Mae'r Gwobrau Efydd, Arian ac Aur yn gadael i chi, fel eglwys, ddathlu'r cynnydd a wnewch chi wrth fynd yn eich blaen.


Gweddiwn y bydd yr adnoddau hyn yn eich helpu i ddod yn rhan o newid diwylliannol, gydag eglwysi'n ysbrydoli gofalaeth am ddaear Duw ym mhopeth a wnawn.

### DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Gwylwch y Gwyddonydd Hinsawdd Cristnogol, Katharine Hayhoe, yn chwalu rhai o'r mythau ar ei sianel YouTube 'Global Weirding':

- Onid rhan o gylchred naturiol y byd ydy hyn? [https://www.youtube.com/watch?v=k5\\_zpjerQFo](https://www.youtube.com/watch?v=k5_zpjerQFo)
- Does gan grefydd ddim i'w ddweud am newid hinsawdd siawns? <https://www.youtube.com/watch?v=W53uRqITk2I>

Os hoffech gael esboniad syml pam mae carbon deuocsid yn cynhesu'r atmosffer, edrychwch ar y gwefannau hyn. Mae'r un gyntaf yn cynnwys fideo hwyliog sy'n dangos effaith defnyddio eitemau a fydd gennych gartref.



## ADEILADAU

# Pam ydym ni'n cynnwys adran am adeiladau?

- <https://news.climate.columbia.edu/2021/02/25/carbon-dioxide-cause-global-warming/>
- <https://climate.nasa.gov/causes/>

### STRATEGIC DEVELOPMENT GOALS

Yn 2015, llofnododd holl aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig 17 Nod Datblygiad Cynaliadwy, a Nod 13 oedd 'Gweithredu Ar Frys i Frwydro Newid Hinsawdd'. Mae hyn yn sefyll ochr yn ochr ag eraill fydd yn cael sylw yn yr adran hon ar adeiladau:



Nod 6: Dŵr Glân a Glanweithdra

Nod 7: Egni Fforddiadwy a Glân

Nod 8: Gwaith Teilwng a Thwf Economaidd [Cynaliadwy]

Nod 12: Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol [Cynaliadwy]

<https://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/>

Yn 2020, cynhyrchodd y Cenhedloedd Unedig y ffilm 'Urgent Solutions for Urgent Times' sy'n tynnu sylw at yr heriau, Mae Pennod 1 (sy'n cychwyn ar funud 5.00) yn canolbwyntio ar 'Newid Hinsawdd a'r Blaned': <https://www.youtube.com/watch?v=xVWHuJOmaEk&t=95s>